**Amgueddfa Cymru**
Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NP
Ffôn: 0300 111 2 333
Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg.
**National Museum Wales**
Cathays Park, Cardiff, CF10 3NP,
Tel: 0300 111 2 333
We welcome correspondence in Welsh.

ysbrydoli pobl
newid bywydau
inspiring people
changing lives

Delyth Jewell MS
Plaid Cymru

27 August 2021

Annwyl Delyth

Byddwch mae'n debyg yn ymwybodol o'r sylw diweddar yn y wasg ac ar y cyfryngau cymdeithasol i'r **Adroddiadau Ehangu Ymgysylltu** a gyhoedwyd ar 19 Awst.

Yn 2020, cyhoeddodd Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru eu bwriad i gynnal cyfres o sgyrsiau dwys gyda grwpiau cymunedol er mwyn ehangu ymgysylltiad â phobl yr ydym yn methu yn gyson â'u cynnwys yn ein gwaith. Fe wnaeth tri sefydliad gynnal tair astudiaeth wahanol iawn ar ein rhan:

1. Re:cognition a ganolbwyntiodd ar ardal led-wledig o dlodi
2. Richie Turner Associates, a luniodd dîm i ganolbwyntio ar bobl fyddar ac anabl
3. Wales Arts Anti-Racist Union a ganolbwyntiodd ar amrywiaeth ddiwylliannol ac ethnig.

Wythnos ddiwethaf, fe gyhoeddwyd y tri adroddiad hyn ar ein gwefannau yn ôl yr hyn a gytunwyd gyda'r ymgynghorwyr a wnaeth y gwaith: https://amgueddfa.cymru/nodau/gweledigaeth-ymrwymiadau-a-gwerthoedd/ymchwil-ehangu-ymgysylltiad/

Mae ein hymateb cychwynnol i'r adroddiadau hyn i'w weld yma: https://amgueddfa.cymru/newyddion/1239/Mae-diwylliant-yn-perthyn-i-bawb/

Tra'n bod yn croesawu'r adroddiadau nid ydym eto wedi derbyn na gwrthod yr argymhellion a geir ynddynt. Rhoddwn sicrwydd i chi na fyddwn yn bwrw ymlaen ag unrhyw argymhellion a fyddai'n arwain at dorri ein cyfrifoldebau statudol fel rhan o'r Safonau Iaith.

Llywydd / President Roger Lewis
Is-Lywydd / Vice President Dr Carol Bell PhD, DLitt
Trysorydd / Treasurer Hywel John FCA
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General David Anderson OBE
Elusen Cofrestredig / Registered charity: 525774
Rhif TAW / VAT number: GB 783 4541 10
amgueddfa.cymru / museum.wales

Mae’r gwaith yn cefnogi Cynllun Cydraddoldeb Strategol y ddau sefydliad, sy’n disgrifio ein penderfynoldeb i sicrhau cydraddoldeb, a’n hymrwymiad clir i gyrraedd holl gymunedau Cymru a gwella’r cyrhaeddiad hwnnw. Bydd y gwaith hefyd yn cefnogi Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru.

Yn yr hydref, bydd y ddau sefydliad yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu ar y cyd gydag amserlen ar gyfer gweithredu ar yr argymhellion yn yr adroddiadau. Yn y cyfamser, mae croeso i chi gysylltu os hoffech chi drafod y gwaith hwn gyda ni.

Yn gywir





**Roger Lewis**
**Llywydd**
**Amgueddfa Cymru – National Museum Wales**

**Phil George**
**Chair**
**Arts Council Wales**